

CYPE(5)-18-19 - Paper i'w nodi 2

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol Deputy Minister for Health and Social
Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-L/JM/0457/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Mehefin 2019

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Mai, a oedd yn gofyn am ymateb ysgrifenedig Cafcass Cymru ar bwyntiau penodol o ddiddordeb mewn perthynas â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Hyderaf y bydd y Pwyllgor o'r farn bod y wybodaeth a ddarperir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn yn ddefnyddiol. Edrychaf ymlaen at drafod ymhellach gyda'r Pwyllgor sut y bydd y Bil yn diogelu hawliau plant ar 12 Mehefin.

Yn Gwyrir

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

ATODIAD

1. Hynt y Bil

A wnewch chi ddarparu manylion am gyfraniad CAFCASS Cymru hyd yma at y broses o ddatblygu'r Bil?

Mae Cafcass Cymru yn Gyfarwyddiaeth o fewn Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion Cafcass Cymru wedi gweithio gyda swyddogion perthnasol o'r Is-adran Plant a Theuluoedd yn Llywodraeth Cymru drwy gamau amrywiol datblygiad y Bil. Mae ei safbwyntiau wedi'u crynhoi a'u hadlewyrchu drwy ddogfennaeth y Bil, yn enwedig y Memorandwm Esboniadol a'r llythyr dyddiedig 25 Ebrill a anfonais atoch (Cyf MA-L/JM/0382/19), yn ogystal â thystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyllid.

2. Adnoddau a chapasiti

A wnewch chi rannu sylwadau CAFCASS Cymru am y cyfeiriadau a ganlyn at CAFCASS ym Memorandwm Esboniadol y Bil, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw CAFCASS yn fodlon bod ganddo'r adnoddau a'r gallu i gefnogi'r broses o weithredu'r Bil os caiff ei ddeddfu?

▪ *Tudalen 34 – Blwch costau heb eu meintioli*

“Mae costau anhysbys yn cynnwys costau posibl ar gyfer [...] y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) Cymru, o ganlyniad i gynnydd posibl yn nifer yr honiadau o ymosodiadau cyffredin ar blentyn neu blant rhieni sy'n ymwneud ag achos mewn llys teulu.”

▪ *Tudalen 80 - Llysoedd Teulu - paragraff 41*

“Gallai ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd yn yr honiadau bod rhieni'n cosbi'n gorfforol mewn achosion lle mae'r naill riant yn ceisio cryfhau eu hachos yn erbyn y llall mewn achos sy'n ymwneud â'r teulu; byddai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gorfod ymchwilio. Byddai Cafcass Cymru yn gorfod adrodd ar y mater i'r llys (os oedd llys yn rhan o'r broses), a gallai'r llys orfod dyfarnu ar nifer mwy o faterion. Gallai hyn arwain at lwyth gwaith mwy ac oedi posib.”

▪ *Tudalen 81 - Cafcass Cymru - paragraffau 43-44*

“Mae gan Cafcass Cymru rôl statudol o roi cyngor i'r Llys Teulu ynglŷn â'r hyn sydd er budd pennaf i'r plentyn mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Ar ochr breifat y gyfraith h.y. lle nad yw'r rhieni'n gallu cytuno ar drefniadau sy'n ymwneud â'r plentyn ar ôl gwahanu, a'u bod wedi cyflwyno cais i'r llys, mae'n rhaid i Cafcass Cymru gynnal archwiliadau diogelu gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â chyfweliadau diogelu gyda'r rhieni. Mae'n debygol y bydd dileu'r amddiffyniad yn ychwanegu at y wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r llysoedd. Wedi'r cam hwn, os yw Cafcass Cymru yn weithgar gyda theulu ac yn dod ar draws problemau o'r fath (neu os oes honiadau) yna bydd dyletswydd arno i sôn wrth y gwasanaethau cymdeithasol a'r llys, a allai arwain at rywffaint o waith ychwanegol.”

Mae Cafcass Cymru yn cytuno ac yn cydnabod ei bod yn anodd meintioli ar y cam hwn yn hyn fydd y costau a'r effaith bosibl o ganlyniad i gynnydd posibl mewn honiadau o ymosod cyffredin yn erbyn plentyn neu blant rhieni sy'n rhan o achos llys teulu, ond bydd yn monitro'r sefyllfa. Mae Cafcass Cymru yn aelod gweithgar o Grŵp Gweithredu

Rhanddeiliaid y Bil a thrwy'r Grŵp hwn caiff unrhyw faterion posibl o ran effaith mewn perthynas â Cafcass Cymru eu hystyried a'u monitro'n agos.

Mae'n bosib awgrymu mewn rhai achosion fod honiadau o gosb gorfforol yn erbyn plant sy'n ffurfio'r ymddygiad troseddol os caiff y Bil ei basio yn cael eu hymgyfreitha a'u gwneud yn barod yn y Llys Teulu fel rhan o'r broses 'canfyddiad ffeithiol'. Mewn achosion gyfraith breifat sy'n cael eu hymladd drwm, mae rhieni yn dueddol o roi ymlaen unrhyw ddarn o dystiolaeth y maent yn credu gwneith gefnogi eu hachos. Felly, os oes posibilrwydd fod un rhiant wedi cosbi plentyn yn gorfforol, mae'n debygol y caiff hyn ei godi a fydd y llys yn cael ei ofyn i reoli os wnaeth hyn gymryd lle neu beidio. Fodd bynnag, mae Cafcass Cymru yn cydnabod y gallai'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd o ran honiadau o gosb gorfforol gan rieni mewn achosion. Er y gall hyn ddigwydd, mae honiadau o'r math hwn yn debygol o fod yn rhan o faterion ehangach a godir mewn achos yn y Llys Teulu. Mae Cafcass Cymru yn cytuno ei bod yn anodd rhagweld gydag unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd beth fydd yr effaith neu'r niferoedd a bydd yn monitro'r sefyllfa.

Mae Cafcass Cymru hefyd yn cytuno ei bod yn debygol y bydd dileu'r amddiffyniad yn ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir i'r llys ond mae'n fodlon y caiff unrhyw adrodd ychwanegol ei gynnwys yn y gwaith y mae eisoes yn ei wneud fel rhan o'i adrodd i'r llys.

I gloi, mae Cafcass Cymru ar hyn o bryd yn fodlon bod ganddo'r adnoddau a'r gallu i gefnogi gweithredu'r Bil os caiff ei ddeddfu, ond bydd yn monitro'r sefyllfa'n ofalus wrth symud ymlaen.

3. Y perygl o adroddiadau maleisus

A wnewch chi ddarparu sylwadau CAF/CASS Cymru am y cyfeiriad a ganlyn at adroddiadau maleisus yn y Memorandwm Esboniadol? A fyddai modd i CAF/CASS Cymru nodi pa asesiad a wnaed, os o gwbl, o'r perygl o adroddiadau maleisus mewn achosion cyfraith breifat, ac ym mha ffordd y mae CAF/CASS Cymru yn rhagweld y gallai hyn effeithio ar ei gwaith?

"Ymddengys fod cysondeb ymhlith y pedwar heddlu yng Nghymru mewn perthynas â'r categorïau o droseddau a gofnodwyd. Nodwyd bod cosb gyfreithlon wedi'i defnyddio fel amddiffyniad neu wedi'i hystyried yn y broses o wneud penderfyniad mewn tua 12% o'r categorïau o droseddau a gofnodwyd ac a enwyd. Roedd themâu trawsbynciol a oedd yn ymwneud ag adroddiadau maleisus gan gynbartneriaid yn gyffredin. Rhoddwyd sylw blaenllaw i faterion fel mynediad cyfreithiol a materion a oedd yn ymwneud â chymorth ariannol." (Tudalen 99, paragraff 12).

Nid yw Cafcass Cymru wedi asesu'r risg o adrodd maleisus mewn achosion cyfraith breifat ond mae'n cadarnhau bod hyn eisoes yn digwydd ar y mater hwn ac ar amrywiaeth o faterion eraill mewn achosion. Mae'n fodlon bod gan y llys drefniadau ar waith i ymdrin â hyn, gan gynnwys gwrandawriadau 'canfyddiad ffeithiol' lle ceir materion y mae anghydfod yn eu cylch sy'n bwysig wrth benderfynu ar y goblygiadau ar geisiadau am gyswllt diogel rhwng plentyn a'r rhiant dibreswyl. Fodd bynnag, beth ellir newid yn dilyn cyflwyniad y drosedd yw efallai fydd angen i'r llys ddisgwyl i unrhyw achos troseddol ddod i ben cyn gellir ystyried y mater. Fe all hyn arwain at oediad yn yr achos teuluol, mewn effaith ei ddal yn ôl wrth ddisgwyl am ganlyniad yr achos troseddol. Fodd bynnag, os fydd euogfarn droseddol yn cael ei wneud, ni fydd angen i'r llys teulu dreillio llawer o amser i gynnal canfyddiadau ffeithiol ei hun ac mae'n debygol y gall fynd ymlaen i wneud penderfyniad lles. Bydd Cafcass Cymru yn monitro effaith cyflwyno'r Bil o ran a yw adrodd maleisus o'r fath yn cynyddu.

I gloi, os caiff y Bil ei ddeddfu mae Cafcass Cymru o'r farn na fydd yn newid y gwaith a wna ond bydd yn ychwanegu haen o wybodaeth ychwanegol i'w hystyried fel rhan o'r achosion y mae'n ymwneud â hwy. Bydd yn monitro'r sefyllfa'n ofalus ac yn codi unrhyw effeithiau neu faterion fel y gwêl yn dda.